

Arddodiaid

Yr arddodiaid ydy:

am	ar	at	gan
dros	drwy	wrth	dan
heb	hyd	i	o

1. Cofiwch am y TREIGLAD meddal ar ôl arddodiaid:

am fynd;	ar glo;	at ddrws y tŷ;	dros ben;
drwy Gaerdydd;	dan bwysau;	heb weld;	i Lanarth;
o Flaenplwyf;	hyd odre;	wrth fynd;	gan glywed;

2. Defnyddiwch yr arddodiaid cywir ar ôl geiriau:

dweud wrth	chwarae dros
siarad â	mynd i 'le' e.e. mynd i'r feddygfa
gwrando ar	mynd at 'berson' e.e. mynd at y meddyg
gofyn i	ysgrifennu at berson



mynd at y nyrs

3. Peidiwch â gorffen brawddeg gydag arddodiad:

Anghywir	Cywir
Beth mae e'n sôn <u>am</u> ?	Am beth mae e'n sôn?
Ble ti'n mynd <u>i</u> ?	(I) Ble wyt ti'n mynd?
Ble wyt ti'n dod <u>o</u> ?	(O) Ble wyt ti'n dod?

4. Weithiau, mae arddodiaid yn newid ychydig (yn rhedeg)! e.e.

i mi	ganddo fe/ganddi hi	drosion ni	arnyn nhw
arna i	ohono fe/ohoni hi	gennych chi	ganddyn nhw
iddo fe/iddi hi	wrtho fe/wrthi hi	atoch chi	ohonyn nhw

5. Defnyddiwch ffurfiau 'GAN' yn gywir:

gennyf i (gen i)	gennym ni
gennyt ti	gennych chi
ganddo fe / ganddi hi	ganddyn nhw

ANGHYWIR x	>	CYWIR ✓
Chi gyda llyfrau ni.		Mae ein llyfrau ni gennych chi. NEU Mae ein llyfrau ni gyda chi.
Fi'n cael gwallt melyn.		Mae gwallt golau gennyf i/gen i. NEU Mae gwallt golau gyda fi.

